# DINESYDD

## RHAGFYR - IONAWR

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1981-82

RHIF 83


# DROS 20,000 YN DARLLEN Y DINESYDD!

Mae'r trai wedi troi yn Ne Morgannwg ac y mae'n bosibl fod y llanw yn dechrau. Trai ar beth? Ar yr iaith Gymraeg.

Mae canlyniadau cyntaf y Cyfrifiad wedi dangos fod y trai yn parhau ym Mhowys ac yng Ngwynedd, er fod arafu calonogol i'w weld, ond y mae'r canran a'r cyfanswm o siaradwyr wedi disgyn yn y ddwy sir. Rhyfedd o beth felly yw'r ffaith fod canran a chyfanswm siaradwyr, ill dau wedi codi yn Ne Morgannwg, y canran lan 0.8 y cant i 5.8 a 2,600 mwy yn siarad Cymraeg na deng mlynedd yn 81 pan oedd 18,665 yn siarad Cymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro.

Nid yw'r manylion yn 81 oedran i'w cael eto. Hyn fydd yn dangos beth yw'r esboniad am y cynnydd. Mae nifer y siaradwyr yn yr hen Sir Forgannwg erioed wedi bod yn uchel am y rheswm syml taw hon oedd y sir fwyaf o ran poblogaeth o bell ffordd, ond y gwirionedd trist oedd fod y mwyafrif o'r siaradwyr yn y degawdau dros 50 ac yr oedd yr iaith yn llythrennol yn marw.

Dangosodd canlyniadau cyfrifiad 1971 ychydig o gynnydd ym mysg yr oedrannau dan 20 mlwydd oed. Os yw'r cynnydd yn Ne Morgannwg eleni yn y genhedlaeth iau hyd at 20, fe allwn ddweud fod diolch yn ddyledus i'r Ysgolion Cymraeg a'r Mudiad Ysgolion Meithrin. Os yw'r cynnydd ym mysg y rhai rhwng 20 a 50, mae'r canlyniad yn llai gobeithiol am fod cynnydd yn yr oedrannau hynny yn debycach o ganlyniad i fewnlifiad o Gymry Cymraeg o'r ardaloedd sy'n draddodiadol llai Seisnigedig i chwilio am waith yn y Brifddinas.

Ond fe allwn ddweud ar sail y ffigurau sy wedi dod i law fod yr iaith wedi dal ei thir llawer yn well nag yr ofnid.



Teleri Bevan, sydd wedi ei hapwyntio yn Ddirprwy Bennaeth Rhaglenni BBC Cymru.

CWMNI DIENW CAERDYDD YN CYFLWYNO 'BORE FORY DDAW'


Drama gan Brian Friel; cyfieithiad Alun Ffred Jones. Yn Theatr y Sherman, Rhagfyr 4 a 5, 1981, 8 o'r gloch.

Dyma gynhyrchiad cyntaf y cwmni amatur hwn o Gaerdydd.

Wedi cael llond bol ar fywyd digyffro Ballybeg, pentre bach yng nghefn gwlad Iwerddon, mae Gareth O'Donnell wedi penderfynu derbyn gwahoddiad ei fodryb ac ymfudo i America. Ond ar ei noson olaf gartre mae Gareth yn dechrau simsanu; mae lleisiau a drychiolaethau'n llenwi'r lle; un gair bach gan ei dad, arwydd o gydymdeimlad oddi wrth ei ffrindiau....ac efallai.....

Hon oedd y ddrama fwya llwyddiannus yn America ym 1964 - ar Broadway ac ar daith. Ac eleni mae drama ddiweddara Brian Friel, 'Translations' wedi profi'n llwyddiannus iawn yn Iwerddon ac yn Llundain.

Dylai hon fod yn noson ddiddorol; cyfle i weld cwmni newydd yn perfformio gwaith pwysig gan awdur o bwys.

# LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd,

Carwn dynnu sylw darllenwyr Y Dinesydd at Gymdeithas Bob Owen, sef cymdeithas o gasglwyr sydd bellach yn bump oed a chanddi 700 o aelodau. Prif weithgarwch y Gymdeithas hon yw cyhoeddi tri rhifyn o'r Casglwr yn flynyddol, sef cylchgrawn diddorol yn trafod pob math o bethau - llyfrau, lluniau, llestri, mapiau, stampiau etc. £2 yw'r tâl aelodaeth ac mae croeso i unrhyw un o'ch darllenwyr ymuno â'r Gymdeithas drwy anfon £2 (tâl aelodaeth am 1982) i mi.

Raymond B. Davies,
Is-Ysgrifennydd Cymdeithas Bob Owen, Cartrefle, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Dyfed. SY23 3QR.

Annwyl Olygydd,

Carwn dynnu sylw y rhai hynny o blith eich darllenwyr sy'n casglu pethau prin ac anarferol at gyfres newydd gan HTV yn ymwneud â'r pethau hyn. Byddwn yn falch o glywed gan berson sydd â chasgliad go ddiddorol ac yn ystyried cynnwys eitem am eu gweithgarwch yn 'Pethau Prin'. Gellir cysylltu â ni trwy ffonio neu ysgrifennu at:

'Pethau Prin', HTV, Y Ganolfan Deledu, Yr Wyddgrug, Clwyd, CH7 1YA
Ffon: Yr Wyddgrug 55331.

Yn gywir,

Michael Bayley Hughes,
Ymchwilydd y Gyfres.

☆☆☆☆☆☆☆☆☆☆☆☆☆☆☆☆☆☆☆☆☆


**TAFLEN**

LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar nos Sadwrn).

CYFAMODIR POB ELW I
GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD


# Y CALENDR

**Rhagfyr**

2, Mercher, Heol y Crwys, Rhaglen y BBC 'Hela Sgwarnog'

4 a 5, Gwener a Sadwrn, Theatr y Sherman, Cwmni Drama'r Brifddinas yn perfformio 'Bore Fory Ddaw' 8 p.m.

5, Sadwrn, Ffair Nadolig Ysgol Glantaf.

7, Llun, Merched y Wawr, Bwydydd Nadolig gyda Miss E. N. Davies.

9, Mercher, Parti Nadolig Cymdeithas y Dysgwyr, Tŷ'r Cymry, 8 p.m.

11, Gwener, Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, Noson Nadolig yng ngofal Mr. John Ewart Jones, Festri Bethel, Heol Penlline, 7.30 p.m.

11, Gwener, Parti Nadolig a Disco Cymdeithas y Dysgwyr, Cross Inn, Gabalfa, 8 p.m.

18, Gwener, Parti Nadolig Y Dinesydd, Neuadd yr Eglwys Llandaf, 8 p.m. Ffoniwch 753625 neu 563588

19, Sadwrn, Ffair Nadolig Ysgol Bryntaf, 10.30 a.m.

**Ionawr:**

23, Sadwrn, Ffair Sborion, St. Saviour Splott, 10.30 a.m.

29, Gwener, Ysgol Gyfun Radur, Noson y Santes Dwynwen, Tocynnau oddiwrth Kay a Dai Clements, Radur. Tel: 842028

**Rhaghysbysiadau**

Mehefin 26 - Ffair Haf Glantaf

Tachwedd 13 - Ffair Nadolig Plaid Cymru

**Ionawr**

17, brynhawn Sul, Cynhadledd Ieuenctid yng Nghapel Ebeneser, Heol Siarl am 2.30 o dan arweiniad y Parch Dafydd Owen ar Seiliau'r Ffydd Gristnogol.

**Chwefror**

14 Yn y Tabernacl, Gwasanaeth Ysgolion Sul Cydenwadol wedi'i drefnu gan Robin Gwyndaf am 2.30.

RHAGLEN

## Hywel Gwynfryn

YN THEATR BUTE

Yn ddiweddar mae 'Rhaglen Hywel Gwynfryn' wedi gadael y stiwdio er mwyn mynd allan i gwrdd â'r bobl. Yn ddiweddar aeth i Theatr Felinfach yn Nyffryn Aeron ac yn awr bydd yn ymweld â Theatr Bute yng Nghaerdydd. Mae croeso cynnes i bawb ddod i fwynhau'r amrywiaeth unigryw o eitemau a geir ar y rhaglen yng nghwmni Hywel a rhannu peth o'r hwyl cyn Nadolig.

Recordir rhaglenni ar nos Wener, Rhagfyr 18 a nos Sadwrn, Rhagfyr 19, ac fe ellir cael tocynnau trwy ddanfon at Ystafell E3102, Canolfan y BBC, Llandaf, Caerdydd.

## CYMDEITHAS CLWB CYMRAEG CAERDYDD

Does dim newyddion ynglŷn â phrynu adeilad ond mae'r Gymdeithas wedi sylwi ar ddarn o dir gwag mewn man cyfleus ac mae ymholiadau'n cael eu gwneud. Byddai sawl mantais mewn cael darn o dir yn hytrach na phrynu adeilad. Er enghraifft gellid datblygu'r safle dros gyfnod wrth i nifer yr aelodau dyfu ac wrth gwrs gellid adeiladu'n bwrpasol. Beth bynnag, ceir trafodaeth lawn o fewn y Gymdeithas cyn penderfynu'r naill ffordd neu'r llall.

Hywel Merfyn.

## Y PLYGAIN NOSWYL Y NADOLIG

Ceir mwy a mwy o addoli neu Plygain y nos cyn y Nadolig yn ardal y Dinesydd. Mae tri o leiaf wedi dod i sylw'r papur. Mam y tri mae'n siwr yw'r Plygain yn Croes y Parc, Llanbedr y Fro, yr ail yw'r un a gynhelir yn Heol y Crwys am 10.30 yn y ddinas a'r trydydd yw'r baban plygain newydd fydd yn cael ei gynnal yn Mhentyrch gan Gymdeithas Gymraeg Llantrisant yn y Tabernacl am 11.30 i fewn i'r diwrnod sanctaidd. Ceisiwch gael blas yr Wyl mewn gwirionedd a phrofi o'i rin achubol yn un o'r gwasanaethau hyfryd hyn.

# MAES Y PLANT



Iestyn Llwyd Williams

MAES Y PLANT

gan Fyfyrwyr Trydedd Flwyddyn Cyncoed.

Helo blant,

Gobeithio eich bod i gyd wedi cael mis yn llawn hwyl a sbri. Mae'r Nadolig yn brysur agosau. Ydych chi wedi anfon eich llythyrau at Sion Corn? Beth ydych am ei gael i Mami a Dadi? A beth am weddill y teulu?


Cofiwch fod yn ofalus wrth addurno'r tŷ - gadewch i Dadi fynd ar ben yr ysgol.

Dyma gwis bach i chi. Faint wyddoch chi am Chwedlau Cymru?

1. Gan bwy oedd clustiau mul?
2. Ci ffyddlon tywysog.
3. Hwyliodd gyda tair ar ddeg o longau bach.
4. Pwy ofalai am ddorau Cantre'r gwaelod?
5. Tynnodd hwn gleddyf o engan.
6. Anfonodd hon drudwy ar draws y môr.
7. Lle cerddai hon, tyfai meillion.
8. Torrodd hwn glustiau ceffylau.

Dyma bos hawdd i chi. Ond cofiwch fod matses yn beryglus.

Symudwch dair matsen gan adael tri sgwar ar ôl.



Cornel jôcs

Wil: Mi fuo gen i barot am bum mlynedd, a ddeudodd o ddim gair.
Ifan: Be 'oedd arno fo?
Wil: Roedd o wedi'i stwffio.

Glywsoch chi am yr athro hwnnw oedd yn gorfod gwisgo sbectol haul am fod plant ei ddosbarth yn ddisgyblion disglair?

Ydych chi'n gwybod jôc neu ddwy? Beth am eu hanfon i ni a chaiff y rhai gorau eu printio.

BECHGYN O GAERDYDD YN CAEL RHANNAU YN 'GWEN TOMOS'

Mae amryw byd ohonom mae'n siwr wedi dyheu am gael gweld 'Gwen Tomos' wedi'i drosi'n ffilm ar ol cael ein gwefreiddio gan y deunydd dihysbydd oedd yn y llyfr - a'r peth nesaf at ffilm wrth gwrs yw Rhaglen Deledu a George P. Owen yn cynhyrchu.

Pwy fyddai'n meddwl mai dau Gymro bach ifanc, ar y pryd yn Ysgol Bryntaf ond nawr yn Ysgol Glantaf, fyddai'n cael rhannau Harri a Twm yn 'gryts' yn y telediad, ond dyma nhw, Iesyn Llwyd, mab Arfon ac Einir Williams fel Twm Nansi, a Dafydd Roberts, mab Huw a Lona Roberts fel Harri. Dyna brofiadau gwych i'r ddau - cael cymryd rhan yn y Plygain a gwneud y cyfleth traddodiadol cyn hynny a'r ymladd ceiliogod enwog sy yn y llyfr.

Trueni i John Gwilym Jones geisio gwella 'r dechreuad y nofel gan Daniel Owen achos cyn gynted yr ymddangosodd y bechgyn roedd y telediad yn llawer nes at yr hyn a gofiem o'r llyfr. Roedd y bechgyn yn actio fel pe baent yn hen law arni a'u tafodiaeth heb unrhyw arlliw o'r lletiaith mae rhai wedi dod i'w gysylltu a bechgyn Caerdydd.

# Y MAB DAROGAN

Neu, mewn geiriau eraill, Owain Glyndwr. Dywedir ei fod yn cysgu mewn rhyw ogof yng Nghymru, yn disgwyl i'w bobl alw arno os bydd y wlad mewn perygl.

Cafodd alwad o fath ar gyfer eisteddfod Machynlleth. Pe bawn i'n ei le ac yn gwybod y byddwn i'n gorfod perfformio ar y llwyfan anferth, anghyfleus yna, buaswn i wedi para i gysgu am sbel. Beth bynnag, deffro a wnaeth a chael hwyl reit dda arni, yn ôl yr hyn a ddarllenwyd yn y wasg.

Daeth i Gaerdydd ar y cyntaf ar hugain o Dachwedd, i berfformio yn y Coleg Addysg. Dyma'r ail dro iddo fod yma. Fe fu yn y ddinas unwaith o'r blaen, pan oedd yn bentref, ac fe wnaeth andros o lanast yn y castell, er nad oedd sôn am hynny yn y rhaglen wych a gynlluniwyd ar gyfer y noson (neu, i fod yn fanwl gywir, ar gyfer Machynlleth, ond bod rhai copiau'n sbar).

Syniad gwych na ellir estyn dim ond canmoliaeth iddo yw dod a sioe eisteddfod o gwmpas fel hyn. Rhydd gyfle i'r rhai sydd ddim yn medru mynychu'r ŵyl am wythnos i weld beth ddigwyddodd yno. Wrth gwrs, wyneba pob grwp llwyfan ar un broblem yn syth. Os yw wedi paratoi'n gydwybodol ar gyfer maes pel droed llwyfan y genedlaethol, mae wedi gofalu am ehangder ac offer chwyddleisio ac ati, i bawb gael rhywbeth i weld a chymorth i glywed.

Ar derfyn y noson, cyfeiriodd y cynhyrchydd yn fyr at y broblem o orfod ceisio gwneud cyfiawnder a'r sioe y tu mewn i gyfyngiadau llwyfan bach y Coleg Addysg nas darparwyd erioed ar gyfer Opera Roc.

Rhaid dweud yn syth mor hyfryd oedd gweld llwyfan mor llawn o bobl ifanc o ardal wledig yn mwynhau perfformio. Gall y Dinesydd ddychmygu'r anawsterau a fu i gael cynifer o bobl o ardaloedd mor wasgaredig at ei gilydd ar gyfer yr ymarfer. Yr hyn a rydd arlliw arbennig i'r perfformiad yw'r ffaith mai brethyn cartref oedd y cyfan, o'r set, i'r dillad, i'r geiriau, i'r gerddoriaeth. Rhaid bod yr hen Owain yn cael ei blesio.

Dydy opera roc ddim at ddant y gohebydd arbennig hwn. Yr hyn a gewch chi yw mor o ganu a cherdded o gwmpas a fawr ddim yn digwydd. O gofio am yrfa Owain, mae'n chwith edrych ar ddehongliad o'r fath. Mawr glod i'r cwmni, felly, iddyn nhw lwyddo, fwy nag unwaith, i roi naws brwydr, menter a siom eu harwr i ni. Pe bai'r amgylchiadau wedi bod yn fwy ffafriol, mae'n siwr y byddai'r cydbwysedd rhwng yr offerynnau a'r lleisiau wedi bod yn well. Wn i ddim a wyddai Owain beth oedd meicroffon cyn iddo fynd i gysgu, ond fe wn i un peth, os nad yw'n bell o gyrraedd sain uchelseinydd ac yn cysgu'n drwm, fe all gael ei ddeffro cyn pryd.

Neuadd fach yw neuadd Cyncoed a bu'r holl chwyddo sain yn ormod iddi ar adegau. Yn anffodus, teimlai'r cast na fedren nhw ganu heb gymorth y lolipop tragwyddol o dan eu trwynau. Er bod llyfnder amlwg yn y cynhyrchu, digri i'r eitha oedd gweld yr hen Owain, yn ei drallod ar ôl gweld ei fab yn cael ei ladd, yn ymestyn at ei ffon ganu cyn dweud dim ac yna'n ei rhoi'n ôl yn ei chylch cyn troi at ei wraig. Nid ef yn unig, cofiwch, Pasio'r hen beth i'w gilydd, ei godi a'i ostwng, dyna fu hi drwy'r nos a ninnau'n gwybod oherwydd perseinedd canu'r corws y byddai'r lleisiau ar eu hennill heb y cymorth gau.

Gan ein bod yng Nghymru roedd yn rhaid diolch i bawb. Er i ohebydd Y Dinesydd dalu am ei sedd, diolchwyd iddo am ddod, "Yr ychydig ohonoch chi," meddai'r cynhyrchydd. Wn i ddim ai cyfeirio at y seddau gweigion yn y gynulleidfa yr oedd neu at ei gred mai ychydig o Gymry Cymraeg sy'n byw yn y ddinas.

Dylem fod wedi dweud wrtho mai ychydig ohonom sy'n mynychu'r pethau Cymraeg yma'n amal, oherwydd pwysau'r hyn a'r llall, ac i'r ychydig a ddaeth deimlo iddyn nhw gael noson gwerth chweil yng nghwmni ei dîm ifanc talentog. Diolch iddo am ddiolch i ni. Efallai y gall adael Owain ar ôl erbyn y noson Gymraeg nesaf, y cwmni dienw yna gan Yr Urdd fydd wrthi, gyda drama'r holl ffordd o America, os wy'n cofio'n iawn. Ie, Owain, America, cofia, a dyna ti'n gorfod bodloni ar gynnyrch lleol.

Rhagfyr 4 a 5, Sherman: £1.80: Prynwch ar frys. Cofiwch ddod. Erbyn 8.00.

ADOLYGIAD O'R DDWY FFILM "O'R DDAEAR HEN" AC "O.G."

gan Marred Jones

Sgrechiadau, sŵn crio, a bonllefau o chwerthin oedd i'w clywed yn Theatr y Sherman ar y nos y dangoswyd dwy ffilm newydd y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg, "O'r Ddaear Hen" ac "O.G.".

Y piti oedd fod ymateb rhai aelodau o'r gynulleidfa wedi mynd yn drech na'r gweddill ohonom ar adegau, gan fod tinc maleisus i'w chwerthin ambell dro, a'u anaeddfedrwydd amlwg yn gwneud iddynt chwilio am eiriau anweddus i alw allan yn y tywyllwch wrth weld dau gorff noeth ar wely yn "O.G.". I wneud y sefyllfa yn waeth, geiriau Saesneg oedd y rhain - Mae'n debyg nad yw geirfa Gymraeg y myfyrwyr swnllyd hyn wedi ehangu digon eto. Beth bynnag, er gwaetha'r amgylchiadau mwynhawyd y ffilmiau gan y mwyafrif ohonom yn y theatr.

Dechreuad siomedig oedd i'r ffilm gyntaf, "O'r Ddaear Hen". Ysgrifennwyd y sgript gan yr Athro Gwyn Thomas, Bangor, ac ar y cychwyn roeddem yn cael ein tywys yn ôl i fyd yr hen Geltiaid. Am gyfle i gyfarwyddwr, meddyliais wrth fy hun, ond yn bersonol, roeddwn yn anghytuno â'r gwaith camera yn yr olygfa gyntaf hon. Yn hytrach na chyflwyno darlun clir o seremoni baganaidd, roedd y camerau yn neidio o gwmpas o un cymeriad i'r llall. Nid oedd digon o ganolbwyntio ar wynebau'r Celtiaid, yn enwedig ar wyneb eu harweinydd. Roedd sgrech y ferch ifanc yn yr olygfa hon yn hollol bathetig ac nid oedd yn ychwanegu unrhyw beth at yr awyrgylch.

Ond, gwella wnaeth pethe wrth i'r ffilm ddatblygu. Charles Williams, wrth gwrs, yn rhoi sglein i'r stori wrth bortreadu hen ddyn a ddaeth ar draws hen gerflun Celtaidd yn ei ardd gefn. Ellen Roger Jones, ei wraig yn y ffilm, hithau yn siarad yn braf o naturiol, ac yn hollol gredadwy. Yn anffodus, nid oedd y cymeriadau eraill gystal. Braidd yn annaturiol ar y cyfan. Ond fe roedd yr ysbryd bygythiol, y diafol ei hun, fe ymddengys, yn wir erchyll ac yn ddigon i godi braw ar y dewraf ohonom.

Cafwyd diweddglo eitha dramatig, ond braidd yn ddiddychymyg. Roedd hefyd yn adlais o un o ffilmiau cyntaf y Bwrdd Ffilmiau, sef "Newid Gêr".

Synnais weld un camgymeriad hollol elfennol. Gwelwyd mewn un olygfa fwndel o gylchgronau ar fwrdd. Ond, wrth i un o'r cymeriadau wyro ymlaen i godi un o'r cylchgronau, wele un hollol newydd ar dop y bwndel. Mae angen sbectol newydd ar rywun yn rhywle!

Wedi mwynhau twb o hufen ia yn yr egwyl, setlo i lawr wedyn i fwynhau'r ail ffilm, "O.G.", a ysgrifennwyd gan Wil Sam. Ac mi wnes i fwynhau hefyd. Roedd y deialog yn llithro'n naturiol o gymeriad i gymeriad, a John Pierce Jones yn gampus yn y brif ran.

Roedd Elliw Haf yn gymwys, ond yn ddifflach braidd, fel gwraig O.G. ond efallai fod y cymeriad yn tueddu i fod yn un arwynebol. Cafwyd portreadu penigamp gan Gari Williams a Huw Ceredig, ac roedd sbectol "Easy Rider" Dafydd Hywel yn cyfleu pob dim am gymeriad Huw Handy Tools.

Roedd yr 'handyman' yma yn dod o Fangor ac i ganol Seisnigrwydd y dref honno yr aeth O.G. i fyw, ond a'i galon trwy'r adeg yn ei nefoedd bersonol ef - ei bentref genedigol, Llannerch. Roedd diweddglo'r ffilm yn rhamantaidd a thrist, a'r gwaith camera yn arbennig iawn.

Ambell dro, roedd rhai golygfeydd llanw, a'r adeilad-waith yn arafu ac yn colli impetws. Nid oedd y rhain, fodd bynnag, yn ddigon i amharu ar y ffilm fel cyfanrwydd.

Roedd y gerddoriaeth, a gyfan-soddwyd gan Henry Huxley, yn rhan anhepgorol o'r cyfanrwydd - yn gweddu i'r digwyddiadau i'r dim.

Noson lwyddiannus, felly, i Fwrdd Ffilmiau Cymru yn Theatr y Sherman. Gwelwyd ambell sinig cosmopolitan yn sychu deigryn o'i lygaid wedi diweddglo trist O.G. Cafwyd noson o adloniant difyr, a phawb yn edrych ymlaen at weld arlwy nesa'r Bwrdd a'i gyfraniad i S4C.

Wedi'r holl draethu, beth am gwpanad o Hwrlics cyn noswylio? Ac mae pob un a welodd "O.G." yn deall nad camgymeriad sillafu mohono!


Stori garu at eich dant . . .
CASTELL TALGARTH
Ann Rhisiart
Y diweddaraf yng Nghyfres y Fodrwy a'r gorau eto
Dim ond 60c!


## Y SYRCAS

Dywedodd Mr. Wilbert Lloyd Roberts mewn cyfarfod o Gymdeithas Theatr Cymru, rai blynyddoedd yn ôl bellach na chofia i'r Dinesydd ddweud yr un gair da am berfformiadau'r Cwmni.

Mae rhai pwysicach o lawer na'r papur hwn wedi bod yn dweud rhai geiriau angharedig wrtho'n ddiweddar; pobl a ŵyr fwy na'r Dinesydd, y mae'n siwr, beth sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni.

Cafodd y ddrama hon ei gwobrwyo mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan y Liverpool Daily Post. Wrth ei chyflwyno i ni ar raglen y noson, dywed rhywun:

"Rydym wedi ceisio pwysleisio'r alegori sydd o fewn y ddrama trwy ymwrthod a lleoliad realaidd. I ba raddau y bydd hyn yn llwyddiant, ni wyddys eto".

Fe wyddys y Dinesydd hyn. Y prif gymeriad yw pennaeth y Syrcas sy'n dipyn o deyrn, ei afael yn haearnaidd ar y criw bychan sy'n perfformio yn ei syrcas, Wmff y clown, Wil (Ercwl) y dyn cryf, cyhyrog, Elan, y ferch a all rodio'r gwifrau a Jezebel a ddaw i ddawnsio'n hudolus o flaen llewod. Y ddrama sy'n datblygu rhwng y rhain yng nghefn y cylch yw craidd y ddrama; drama o rai'n gorfod mentro mwy a mwy am fod y gynulleidfa'n mwynhau sefyllfa beryglus; o rai'n syrthio mewn cariad a'i gilydd yng ngwewyr yr ymdrechion.

"A play is a suspension of reality", medd rhywun ond pa mor bell, tybed, y disgwylir i hygoeledd dyn fynd? Mae Gaynor Morgan Rees wedi gwefreiddio cynulleidfaoedd yn y gorffennol ac fe wna hynny eto. Mae'n amryddawn, ond ar Sul yr wythfed o Dachwedd, yr hyn a welai llawer gormod ohonom oedd y coesau lluniaidd a ddringai'n ddeniadol at ei cheseiliau. Er ei bod hi'n camu o gwmpas fel meistir tir, chodai hi ddim ofn ar ganeri, er gwaetha'i chwip.

"Jiw jiw, Sabrina fach," fyddai ymateb Mrs. Mathias, rwy'n siwr, i'r orchest gyntaf y ceisiodd Elisa'i chyflawni, sef taflu'i thin dros i phen wrth ddod i mewn am y tro cyntaf. Dangosodd (pe bai angen gwneud hynny) y cai hi'n ddigon anodd cadw'i chydbwysedd ar ystyllen droedfedd o led, heb sôn am wifren fain. Gresyn i'r cyfarwyddwr ofyn iddi hi ymestyn mor bell i gyfeiriad anodd. Disgwylid iddi, wedyn, syrthio mewn cariad ag Ercwl. Roedd y gwr cyhyrog a gafwyd gan Stewart Jones ddim yn un y byddai Sabrina'n bywyd pob dydd yn debyg o edrych ddwywaith arno. Roedd y "cyhyrau" amlwg yn y lleoedd anghywir a'r goleuno'n rhy greulon i argyhoeddi. Yn wir, roedd yn haws credu pethau pan gai ei denu at Wmff, druan, a chwaraewyd yn feistrolgar gan Glyn Williams. Yn anffodus, roedd Jezebel yn llai tebyg fyth o syrthio mewn cariad â'r dyn cryf er bod y ddrama'n gofyn inni ddychmygu i'r eithaf wrth i'r ddau fynd y tu ôl i damaid o len i orffwyso.

Gwaetha'r modd, gwaeddai'r ddrama am gael dangos i ni'r ddwy ochr i'r cymeriadau. Er bod y rhaglen yn gwneud sioe fawr o roi colur ar Wmff i beri iddo ymddangos fel clown, chawson ni ddim clown y cylch ganddo o gwbl, hyd yn oed mewn esgus o ymarfer y tu cefn i'r llwyfan. Dangosodd Ercwl mewn pwt o gynnig nad oedd yn ddyn siew wrth godi ei bwysau. Aeth Elan ddim yn agos at wifren (hyd yn oed pe medrai!) a chreoedd hyn anghydbwysedd na allai'r cast ei unioni. Rhyw hanner drama allai hi fod ar y gorau, hyd yn oed pe bai'r cymeriadau'n argyhoeddi fel cymeriadau. Oherwydd y castio anffodus, roedd llawer o'r gynulleidfa'n teimlo fod rhywbeth yn mynd i golli er na allai ddweud yn iawn beth.

Mae'n anodd pwyso'r ddrama oherwydd hyn. Y mae'n fwy na phosibl y gallai'r cast iawn wneud byd o les iddi a chyflwyno'r alegori sydd ynddi i ni mewn ffordd llai carbwl; mwy artistig. Roedd y cylch 'mawr' bach a gafwyd a'r miwsig gwneud a'r lleisio digri'n dangos na ellir mynd yn rhy bell o'r "lleoliad realaidd" gyda'r math hwn o ddrama.

Rydym yn dal i gofio cynhyrch-iad gorchestol David Lynn o Esther. Mae'n anodd meddwl mai'r un person fu wrth hon gan fod cynifer o driciau'r llwyfan a gafwyd ganddo'n ein hatgoffa o'r dramau neuaddau capeli slawer dydd lle'r oedd rhywbeth yn gwneud y tro a'r gynulleidfa'n derbyn y byddai'n rhaid i'r dychymyg fod yn dren.

DATHLU HEN GALAN

YSGOL COED Y GOF
(PENTREBAEN)

NOS WENER, IONAWR 15fed, 1982

Adloniant a bwyd yng nghwmni'r Fari Lwyd.
Tocyn: £1.50  8 p.m.
Ffon: 593407 neu 842074

# Y CLWB CINIO 1951 - 1981

Erbyn hyn pedwar yn unig o'r cwmni gwreiddiol sy'n aros o fewn cyrraedd i'r Clwb yng Nghaerdydd ond yn anffodus 'dyw iechyd dau ohonynt ddim yn ddigon da iddynt ddod bellach. Y mae un o'r ddau yn Aelod Anrhydeddus am oes - yr unig un erioed i'w ethol yn hanes y Clwb - Emrys Thomas, Ffordd Sant Isan, Caerdydd, nas gwelsom yn anffodus ers blynyddoedd lawer. Y llall yw Idwal C. Evans y bu'n rhaid iddo encilio rhyw ddwy flynedd yn ôl er gofid i bawb a phawb yn cyd-ymdeimlo'n ddwys ag ef yn ei brofedigaeth ddiweddar. Dau ohonom sy'n aros yn aelodau di-fwlch er 1951: T.W. Thomas, Pentyrch a minnau; a minnau a wahoddwyd i sgrifennu hyn o lith oherwydd, os nad wyf yn camsynied, d'oedd T.W. ddim yn y cyfarfod cyntaf oll yng Ngwesty'r Frenhines, Heol Fair, ar y 6ed o Hydref, 1951 pan benderfynwyd yn ffurfiol sefydlu'r Clwb a chwrdd pob Llun cynta'r mis. Os oedd T.W. yno maddeued imi am fod mor haerllug. Yr oedd Geraint Walters ymhlith y sylfaenwyr ond ni fu'n aelod di-dor. Cafoddd ysbaid o weithio yn Singapor ac anodd oedd iddo deithio o fanno bob Llun cynta'r mis!

Ond nid oedd na T.W. Thomas na minnau yn y cwmni dethol o saith o wyrda a gyfarfu ar awgrym J.E. Jones, Trefnydd Plaid Cymru, yn ystafell William Thomas yn y Swyddfa Llywodraeth Leol (cyn dydd y Swyddfa Gymreig) ym Mharc Cathays ar y 26ain o Orffennaf, 1951 i drafod syniad J.E. o sefydlu Clwb Cinio Cymraeg yng Nghaerdydd. Dyma enwau'r pump arall - W. Freeman Evans, T.J. Morgan, Geraint Walters, a D. Morgan Rees (Gwasg y Priordy). Ffrwyth eu trafod oedd cylch-lythyr ym mis Medi at ddeg-ar-hugain o Gymry Caerdydd yn eu gwahodd i gwrdd dros ginio canol dydd yng Ngwesty'r Frenhines ar y 6ed o Hydref a daeth un-ar-hugain yno. Hwynthwy a benderfynodd sefydlu Clwb Cinio Cymraeg Caerdydd gyda William Thomas yn Llywydd, Geraint Walters yn Drysorydd a Freeman Evans yn Ysgrifennydd. Am J.E. Jones, dywedaf gymaint a hyn - er taw ei syniad ef oedd sefydlu'r Clwb ni chanfum erioed mewn na gair na gweithred o'r eiddo y mesur lleiaf o duedd i ddal mantais i'w blaid ar ei ymwneud a'r Clwb: yr oedd yn rhy fonheddig ac yn rhy gall. A dywedaf hyn gan gofio mai Saunders Lewis oedd yr ail siaradwr i'n hannerch.

Y siaradwr cyntaf oedd un o'n cyd-aelodau - yr annwyl William Eames un o newyddiad-urwyr mwyaf coeth ein cenedl. Ei destun oedd "Atgofion am Gaernarfon" ac roedd ganddo bethau difyr i'w hadrodd am T. Gwynn Jones yn cyfansoddi 'Ymadawiad Arthur' ar gyfer Eisteddfod Bangor 1902. Oddi ar hynny cawsom ein difyrru a'n goleuo gan ugeiniau lawer o siaradwyr yn ein "cwrdd misol" yn tynnu at dri chant o ddynion ac un ferch sef Miss Hetty Edwards, Llyfrgellydd yr Amgueddfa Genedlaethol ar y pryd. Dyddiad yr eithriad pwysig hwn i'n trefn arferol oedd laf o Ragfyr 1958 a gobeithiaf y daw nodi'r ffaith a gwên i wyneb Miss Edwards a'i chalonogi; da deall ei bod yn gwella'n dda o'r anhwylder a'i goddiweddodd yn ddiweddar. Yn naturiol y mae'r rhan fwyaf o'n siaradwyr yn dod o gylch Caer-dydd a'r ffiniau ond yn aml cawn y fraint o groesawu gŵyr sy'n ymweld â Chaerdydd o wahanol rannau o'r wlad ac ambell waith o bellafoedd byd megis y gwron D. Levi Jones gynt o Aberdar a aeth allan i Dde Affrig rhag marw o'r T.B. yng Nghymru a mynd a'r bell hir-gron yn ei gôl a chodi yn ei ysgol yn Johannesburg do ar ôl to o chwaraewyr rygbi mwyaf disglaer gwlad y Springbok. Bu dysgwyr yr iaith ymhlith y siaradwyr - yr uchaf ei statws cymdeithasol yn ddiau oedd Arglwydd Raglaw Morgannwg, Syr Cenydd Traherne. Cafodd groeso brwd, dim mymryn llai na'i haeddiant. Yr un modd Blaise Gillie pan oedd yn Bennaeth y Swyddfa Lywodraeth Leol, a bu o leiaf un dysgwr yn aelod o'r Clwb am rai blynyddoedd, sef M.R. Apted, ysgolhaig oedd a gofal dros hynafiaethau Cymru am gyfnod.

Hyd yn gymharol ddiweddar roedd bri ar Noson y Boneddigesau a gwahodd gwraig i'n hannerch; y gyntaf oedd Miss Cassie Davies H.M.I. a gosododd safon o siarad cyhoeddus a ddilynwyd yn ddi-feth gan rai o ferched amlycaf a dawnusaf Cymru. Eleni newidir ychydig ar y drefn a gwahodd y boneddigesau i ymuno a ni i ddathlu'n pen-blwydd yn ddeg-ar-hugain oed ar y 3ydd o Ragfyr yn Ystafell Canmlwyddiant Undeb Rygbi Cymru, Y Maes Cenedlaethol, Parc yr Arfau. Y gŵr gwadd ar yr achlysur pwysig hwn fydd Islwyn Jones un o bileri ffraeth a difyr Clwb Cinio Cymraeg Y Barri.

Nifer yr aelodau ar y llyfrau ar hyn o bryd yw tua 80. Yn y chwedegau diweddar cododd y nifer i 117 ond yn anaml y gwelir mwy na deg-ar-hugain i ddeugain o gylch y bwrdd fel arfer. Ond po fwyaf nifer yr aelodau mwya'n y byd ein nodded i achosion da Cymraeg a Chymreig megis Canolfan yr Urdd, Ysgolion Meithrin, Cyfeillion Cymreig yr Anghennus a'r Dinesydd; bu'r Clwb yn barod iawn i gefnogi'r Eistedd-fod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd pan ar ymweliad â Chaerdydd.

Tybir gan rai mai Clwb Cinio Cymraeg Caerdydd oedd y cyntaf ar y maes a bod y lleill wedi dilyn ôl ein traed, ond y mae lle i gredu fod Clybiau Cinio Cymraeg yn Aberystwyth ac yng Nghaernarfon cyn 1951. Eithr teg yw honni mai dilyn esiampl Caerdydd a wnaeth Aberafan, Abertawe, Bangor, Y Barri, a Llanelli a gwaith cenhadol W.R. Owen y BBC oedd tu ôl i sefydlu o leiaf ddau o'r rhain ac ef hefyd a gafodd y syniad o gynnal cyd-gyfarfod o'r Clybiau Cinio ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn gan ddechrau'r arfer yn Abertawe os cofiaf yn iawn.

Y mae Llywydd y Clwb yn newid bob blwyddyn - y llywydd eleni yw'r cynganeddwr rhyfeddol o ffraeth Arfon Williams, talcen slip disgybledig os bu un erioed! Mae'r Ysgrifenyddion a'r Trysoryddion yn parhau yn eu swyddi dros gyfnod: bu Freeman Evans, Gwilym Jones ac Emrys Jarman yn eu tro yn Ysgrifenyddion a nawr Dennis Francis a mawr iawn yw dyled y Clwb i'r gwyrda hyn ac i'r Trysoryddion Geraint Walters, D. Morgan Rees (Yr Amgueddfa Genedlaethol) a'i frawd Griff, a Brian Evans.

Cwmnia yw prif amcan y Clwb, cwmnia yn Gymraeg a hyrwyddo hyd y gallwn Gymreictod y Ddinas y cawn y fraint o fyw ynddi. Gwerth nodi mai y Clwb Cinio dan Lywyddiaeth Idwal C. Evans a symbyliad J.E. Jones a berswadiodd Cyngor Dinas Caerdydd i roddi enwau Cymraeg at enwau Saesneg rhai o heolydd canol y ddinas yn 1969. Chwi wyr Caerdydd a'r cyffiniau, os ydych am gwmnia'n ddifyr yn Gymraeg, os ydych am roi hwb bach i'r iaith ystyriwch ymuno a ni. Cyfeiriad Dennis Francis yr Ysgrifennydd yw 28 Heol y Felin, Rhiwbeina. Os ymunwch a ni fe gewch groeso cynnes gan hen ac ifanc.

Alun Oldfield-Davies.

# CHWARAE TEG I SIÔN CORN

Tynnodd Mrs. Fôn ei llaw dros gôt esmwyth y gwningen Angora cyn i'r dyn tu ôl i'r stôl ym marchnad Caerdydd gau'r gwningen yn y bocs a'i glymu gyda rhuban pinc.

Mor falch fyddai ei phlant Huw a Siân ohoni meddyliai. Roedd yn rhaid iddi alw mewn un lle arall cyn mynd adref. Ymwthiodd ei ffordd drwy'r wasgfa o bobl oedd yn prynu twrciod a chywion ieir. Aeth heibio'r stoliau ffrwythau oedd yn arddangos pyramidiau twt o afalau, tanjerîns mewn papur sidanaidd, bocsus o ddatys, bananas a sannau rhwyllog yn llawn o gnau a resins.

Cariai Mrs. Fôn y gwningen yn ofalus. Arhosodd wrth stôl lysiau. Dewisodd y moron bach mwyaf blasus eu golwg a'u gollwng drwy dwll yng nghaead y bocs.

Dim ond glaw yn y stôl lestri i brynu ychydig gwpanau oedd eisiau arni nawr ac wedyn ai adref.

Disgleiriai'r stôl lestri yng ngoleuadau Nadolig y farchnad. Roedd rhyw gynhesrwydd cyfeillgar i'w deimlo ymhobman. Roedd ar fin codi ei bagiau siopa trymion pan glywodd lais cyfarwydd yn galw "Helo Bron. Pwy feddylia' y baswn yn dy weld di. Gad dy fagiau i lawr am funud. Gei di ddod adref gyda fi yn y car".

Viv oedd yna. Doedd hi ddim wedi ei gweld ers gwyliau'r haf. Buasai Huw a Siân wedi bod yn falch nad oeddynt yno, achos pan welai eu mam modryb Viv siaradent am hydoedd yn enwedig pan gyfarfyddent ym marchnad Caerdydd. Roeddynt yn dal i siarad pan gyrhaeddasant y maes parcio.

Nid nes ei bod wrthi'n sychu'i dwylo ar ôl glanhau'r twrci ag yn meddwl am fynd i'r gwasanaeth ganol nos y trodd Mrs. Fôn at ei gwr a dweud "Y nefoedd annwyl, rydw i wedi gwneud rhywbeth ofnadwy; rydw i wedi gadael y gwningen a brynais i'r plant yn y farchnad. Beth ar wyneb y ddaear allai wneud?

Teimlai'r gwningen yn unig iawn yn nistawrwydd marchnad Caerdydd. Am 6 canodd y gloch oedd yn arwydd y berchnogion y stoliau nad oedd ond hanner awr hyd amser cau.

Clywodd y gwningen nhw'n gadael gan ddymuno Nadolig Llawen y naill i'r llall. Clowyd dorau pren y stôl lestri heb i'r un enaid sylwi ar y bocs yn cynnwys y gwningen. Cyn gynted ag y caewyd y tri drws dechreuodd glanhawyr y farchnad ar eu gwaith. Golchasant y ddwy eil o boptu'r stoliau. Sgubasant y llwch a'r bocsus carbord o'r llawr uchaf a dyma nhw'n barod i fynd adref ar gyfer y Nadolig. Wedi i'r golau diwethaf gael ei ddiffodd a'r Nadolig Llawen diwethaf gael ei ddweud cododd ofn ar y gwningen yn y tywyllwch. Wyddai hi ddim beth ddeuai ohoni.

Yna digwyddodd rhywbeth rhyfedd. Trwy'r bwlch yn norau pren y stôl lestri gwelai oleuadau bach tlws. Daethant yn fwy llachar. Sylweddolodd y gwningen mai'r tylwyth teg oedd yna. Glaniodd un ar ei bocs. Tylwyth Teg o Gastell Coch oeddynt. Nhw oedd yn dod bob Nadolig i helpu Sion Corn i lenwi sannau Nadolig gyda chnau a thangerîns. Mae perchnogion stoliau marchnad Caerdydd bob amser yn gadael peth tangerîns a chnau i Siôn Corn ar gyfer llenwi sannau Nadolig y plant.

Pan gyrhaeddodd Siôn Corn aeth yn syth at y bocs lle roedd y gwningen.

"Wel! Wel! Sut doist ti fan'ma?" Os gwelwch yn dda Santa,anrheg Nadolig gafodd ei adael ar ôl ydw i, a wn i ddim ble rydw i fod i fynd chwaith", meddai'r gwningen yn grynedig.

"Paid a becso, fyddwn ni fawr o dro yn rhoi trefn ar bethau. Ble mae fy llyfr nodiadau mawr i? Dyma ni. Mae 'na Huw a Siân Fôn o Landaf wedi gofyn am gwningen. Gadwch inni fynd."

A dyna sut y cafodd gwningen wen ei hun yn eistedd wrth ochr Siôn Corn yn hedfan drwy'r awyr uwchben Parc yr Arfau ac yn ei gwneud hi am dyrrau Eglwys Gadeiriol Llandaf yng ngolau lleuad Nadolig.

Yn gynnar iawn fore Nadolig safai Huw a Siân wrth ochr gwely eu tad a'u mam. Gafaelai Huw yn dynn yn y gwningen.

"Sut ar wyneb y ddaear y daeth y gwningen yna yma?" gofynnodd.

"Siôn Corn ddaeth a hi siwr iawn", meddai Huw. "Wrth gwrs", meddai Siân gan dorri ar draws, "Pwy arall?".
"Deffrwch mam a dad", meddai.
"Deffrwch. Mae'r gwningen wedi cyrraedd".

Gwelodd ei fam y gwningen a rhoddodd bwniad i'w gŵr mewn syndod.


Stori gan Robin Richards
wedi ei throsi i'r Gymraeg
gan Catherine Jobbins.



Iona Jones, un o'r Lleisiau ar record newydd Ysgol Bryntaf, 'Ar Daf yr Iaith a Dyfodd'.



MYNNWCH eich copi o PAIS y mis hwn a darllenwch am fenter Cymraes ifanc sy'n cadw siop ddillad ym Mhontcanna. Jen ei hun sy'n cynllunio y siwmperi gweu hardd sydd ar werth yno. Maent yn werth eu gweld ac mae rhai ohonynt yn Pais y mis yma. Os ydych chi yn hoff o weu, yna mae patrwm gweu godidog siwmper Pais ar eich cyfer hefyd. Mae Pais ar werth yn eich siop llyfrau Cymraeg leol neu os hoffech sicrhau eich copi bob mis - beth am danysgrifio i Pais? Sgrifennwch atom yma yn Swyddfa Pais, 40 Stryd yr Wyddfa, Penygroes, Arfon,Gwynedd, ac fe rown y manylion i gyd i chi.




**ARCHEB BANC**

At y Rheolwr..............(Banc)

.......................(Cyfeiriad)

..............................

Dymunaf i chi dalu i Fanc Masnachol Cymru, 114-116 Heol y Santes Fair, Caerdydd i gyfrif PWYLLGOR RHEOLI Y DINESYDD, rhif cyfrif 40985012, ar unwaith, ac ar y dydd cyntaf o fis.......... bob blwyddyn wedi hynny oni ddiddymir yr archeb gennyf mewn ysgrifen y swm o .............. (mewn geiriau) £......(mewn ffigurau).

Arwyddwyd ......................

Cyfeiriad ......................

..............................

Rhif ac enw'r Cyfrif...........

..............................

Dyddiad ................

Dylid anfon y ffurflen uchod at: Mr. Emrys Jarman, Trysorydd Y Dinesydd, 198 Hill Rise, Llanedeyrn yn hytrach na'i anfon at eich Banc.

## LLAWEN ARWYR LLANHARI

Ymhlith y pedair mil o redwyr a gymerodd ran yn y farathon fawr yng Nghaerdydd roedd pum athro a phum disgybl o Ysgol Gyfun Llanhari.

Mae llawenydd eu hymdrech yn ddeublyg. Yn gyntaf llwyddodd yr athrawon - Hugh Davies, Gareth Lewis, Rhydian John, Doc Charles a Gwynhaf Davies - orffen y ras; ac yn ail, bu eu llwyddiant hwy a'r disgyblion, Craig Gardner, Phillip Morgan, Andrew Morgan, Dafydd Emyr, a Rowland James - yn gyfrwng i godi £400 tuag at brynu cadair olwyn drydanol i ddisgybl anabl sydd yn yr ysgol.

Gwnaethpwyd cyfraniad gwerthfawr ychwanegol gan Rhodri John (brawd Rhydian) a Garmon Emyr (brawd Dafydd).





# NADOLIG LLAWEN

## a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Papurau Bro Cymru.





| | |
|---|---|
| **Rhagfyr 20:** | Nadolig Llawen am 3.30 p.m. Plant Ysgol Pendalar, Caernarfon yn cyflwyno stori'r Geni gyda Elinor Bennett Wigley. |
| **Rhagfyr 23:** | Goglis Nadoligaidd 3.20 p.m. |
| **Rhagfyr 24:** | Sêr arbennig 4.15 p.m. |
| **Rhagfyr 25: Dydd Nadolig** | Cyn Cinio 11 a.m. Rhaglen arbennig o'r Wyddgrug gydag Aled Lloyd Davies, Nerys Hughes ac eraill. |
| **Rhagfyr 26:** | Râs Sgwâr 5.05 p.m. |

**Gorau Gwerin**

Ar ddydd Mawrth am 10.30 p.m. Y gyfres newydd yn parhau ar HTV Cymru – Gorau Gwerin pan fydd Dafydd Iwan a Linda Griffiths yn cyflwyno rhai o gantorion gorau'r werin. Noson lawen o ganu, diddanu a beirniadu'r englyn digri a'r limerig.

**O Gaerdydd, yr Wyddgrug, Bangor a Chaerfyrddin.**

HTV CYMRU WALES

## *CALON LÂN*

**Da gan Philip Morgan a'i Fab, Cyf., allu dweud bod erbyn hyn ddau win bord 'Calon Lân'. Cyfuniad o winoedd Ewropë - aidd wedi'i botelu yn yr Almaen ac o naws tebyg i Mosel yw'r 'Calon Lân' gwyn, a fu ar y farchnad ers blwyddyn a mwy. Cynnyrch Ffrainc yw'r 'Calon Lân' coch sydd newydd ddod ar y farchnad. Prif bwrpas cyflwyno'r gwinoedd hyn wedi'u labelu yn Gymraeg yw rhoi boddhad i'r bobl hynny y mae hi'n iaith gyntaf iddynt neu sy'n gyfarwydd â hi. Pris manwerth potelaid 70 centilitren o'r naill neu'r llall yw tua £2.00**




## *MYFANWY*

**Gwin newydd arall â label Cymraeg arno ar resti Philip Morgan a'i Fab yw 'Myfanwy', gwin sych byrlymus a ddaw o Ffrainc. Pris manwerth potelaid 75 centilitren o'r gwin hwn fydd tua £3.00.**




**Gellir prynu'r gwinoedd yn y siopau gwin canlynol hefyd : ASDA, CARREFOUR, GALLEON WINE, MUNDAYS, SPAR, TESCO, a WINESELLERS.**

**Philip Morgan a'i Fab Cyf., (sef. 1929)**
Prif Farsiandiwr Gwin Caerdydd
126, Wyndham Crescent, Caerdydd, Teleffon 31570

---

### *GWIN A CHAWL A CHÂN*

# *PARTI NADOLIG Y DINESYDD*

**NEUADD Y PENTREF , LLANDAF**

**(Gerllaw'r Maes Parcio Ceir)**

**am 8 o'r gloch.**

## *TOCYNNAU AR GAEL ODDI WRTH Y CANLYNOL*

**(Rhoddir rhif ffôn pob un - rhifauy Caerdydd):**

| | |
|---|---|
| Emrys Jarman (732877) | Shân Edwards (751469) |
| Michael Jones (91/760383) | Gwyn Davies (756882) |
| John Albert Evans (754559) | Nans Couch (753625) |
| Mallt Anderson (753695) | Raymond Edwards (563588) |

## MYNEDIAD £2. DEWCH I HWYL Y NADOLIG

# CICIO'R IAITH

I gychwyn y tro yma, ar gais Y Dinesydd, ymateb y Clwb Peldroed i'r adroddiad yn y Western Mail 28ain Hydref, 1981, yn sôn am y gêm honno lle bu i'r Clwb Rygbi werthu eu treftadaeth a chyd-synio i BEIDIO siarad Cymraeg yn ystod y chwarae, oherwydd rhyw chwilen ym mhen y dyfarnwr. Nid ar chwarae bach y dylid ystyried y fath ymddygiad - beth mewn difrif sydd ym meddwl y gwŷr cyhyrog yma - ydi eu holl nerth ym môn eu breichiau ac ym mhot eu boliau cwrw tybed? Maent eisoes yn hawlio'r Suliau i'w pwrpas eu hunain, ond yn awr dyma ddadwneud pob peth y dylai'r Clwb ei gynrychioli - yr 'antidote' perffaith i waith clodwiw y Mudiad Ysgolion Meithrin. Dylai pob capten gwerth ei halen fod wedi arwain ei dîm o'r maes yn ddiymdroi yng ngwyneb y fath haerllugrwydd o du'r dyfarnwr. Beth fyddai ymateb hwnnw i ddyfarnu gêm rhwng Cymru a Siapan dyweder, neu hyd yn oed Ffrainc. Mi fentrai y byddai hynny'n dderbyniol, ond mater arall ydi siarad Cymraeg ynte. Gobeithio fod y Clwb Rygbi wedi mynd a'r mater ymhellach a chael ymddiheurad o du'r Awdurdodau - yntau a ydynt hwythau'n rhan o'r cynllwyn hefyd. Pa arf gwell na ffrynt fel Clwb Rygbi Cymry Caerdydd i ddifa'r Ysgol Sul a'r iaith Gymraeg mewn un ymdrech fawr a hynny ar ei haelwyd ei hunan. Rhaid gwylio'r gelyn oddi fewn!

Ond yn ôl at fyd llawer callach a sobrach, lle mae'r bêl yn gron ac nid y boliau. Efallai y cofiwch y mis diwethaf na chafwyd buddugoliaeth o gwbl gan yr un o'r ddau dîm. Mae na beth newyddion gwell i'w adrodd y tro yma er mai digon difflach ydi'r perfformiadau wedi bod y naill Sadwrn ar ôl y llall.

Mae'n debyg i ddydd Sadwrn, 17eg Hydref fod yn ddiwrnod i'w gofio i'r rhai ohonom sydd a chof byr - Sadwrn cofnodi buddugoliaeth gyntaf y tymor a'r gêm yn erbyn cyn-ddisgyblion Ysgol Fitzalan. Roedd y chwarae'n dynn iawn trwy gydol yr awr a hanner, a dim ond un gôl oedd y gwahaniaeth rhwng y ddau dîm ar y diwedd. Yn wir gellid dweud mai ffodus yn hytrach na dim arall oeddem i sicrhau y ddau bwynt. Richard a sgoriodd, ac er mai gôl fler oedd hi, dyma gofnod o'i gôl gyntaf i'r Clwb.

Aeth pethau ychydig yn well ar Hydref 24ain ar faes Pontcanna. Y gwrthwynebwyr y tro yma oedd St. Mary's, tîm wedi disgyn o'r Adran Gyntaf ar ddiwedd y tymor diwethaf. Mae'r rhai hyn yn y tîm yn cofio chwarae'r tîm yma flynyddoedd maith yn ôl - yr unig wahaniaeth yw fod chwaraewyr St. Mary's pryd hynny bellach ar yr ochr yn pwyso ar eu ffyn. Eynon fu'n gyfrifol am y gôl gyntaf, unig sgôr yr hanner cyntaf. Roedd y penfelyn hwn (sydd wedi teithio'n eang o edrych ar y 'duffle-bag' sydd yn ei feddiant gyda'r holl fathodynnau arno - llefydd egostic megis Porthmadog a Chaergybi) yn benderfynol pan redodd i fyny'r asgell chwith (ia rhedeg) a thwyllo'r gol-geidwad gydag ergyd i ochr bellaf y rhwyd. Sadwrn dychrynllyd o ran tywydd oedd hi, ac roedd y coesau a'r fegin yn brysur ryfeddol wrth i'r maes golli ei natur wyrdd a throi yn fôr o fwd tew brown ymhell cyn y diwedd. Tro Wyn oedd hi i sgorio wedyn, dwy gôl gampus yn rhoi'r gêm ymhell o afael y gwrthwynebwyr. Cafwyd pedwerydd gôl o droed Rhodri, ac yna gêm o gôl gan Richard, pum llath ar hugain o gic yn gwyro dros ddwylo ymbalfalus y golwr i'r rhwyd. Y sgôr ar y chwiban olaf oedd pum gôl i un o'n plaid. Profiad braf oedd ennill, profiad brafiach oedd cerdded o'r maes a chael y newydd fod yr ail dim hefyd wedi llwyddo i ennill eu dau bwynt cyntaf y tymor. Buddug-oliaeth o dair gôl i ddwy ac yn amlwg roedd y sgwrs gan Bags cyn dechrau'r gêm wedi llwyddo i gyrraedd y nôd. Rhyw hanner awr cyn dechrau'r gêm, roedd y gŵr amryddawn yma yn annerch o bulpud y 'Conwy' - ei ddannedd gosod blaen yn clecian wrth iddo geisio tynnu'r gorau allan o'r criw, hynny bob yn ail a llyncu 'gin' gyda phob rheg.

Stori wahanol iawn oedd i'w hadrodd ar ddiwrnod olaf mis Hydref a'r gêm gartref yn erbyn Grange. Roedd ambell un o selogion y tîm ar goll y diwrnod arbennig yma a chafwyd cweir iawn o chwe gôl i ddim. Roedd Wyn druan wedi anghofio ei esgidiau sgorio gartref, a cael a chael fu hi i Rob Sanger ddychwelyd o'i daith i Baris. Yn anffodus (i bawb arall o aelodau'r tîm) Dewi oedd y capten am y dydd - y tro cyntaf a'r olaf iddo gael y fath anrhydedd! Rhaid cofnodi i Rheon fethu gyda'i gic o'r smotyn gwyn - yr ail waith eleni iddo fethu'r targed, ac o'r herwydd, penderfynwyd yn unfrydol ei wahardd rhag mentro i flwch cosbi'r gelyn am weddill y tymor. (Rydwi'n gwybod eich bod wedi synnu ei fod yn gallu cyrraedd y fan a'r lle yn ystod y gêm beth bynnag!)

Roedd 'na naws arbennig i'r gêm gyntaf ym mis Tachwedd - hen elynion ydi Bridgend Street, a thîm nad ydynt erioed wedi llwyddo i'n curo dros y tymhorau a fu. Newidiwyd gwrs hanes felly ar y Sadwrn yma, a chafodd yr ymwelwyr fuddugol-iaeth o ddwy gôl i un. Maent ar frig yr adran ar hyn o bryd ond bu'n rhaid iddynt ymladd pob modfedd o'r ffordd cyn sicrhau eu dau bwynt. Blerwch ymysg y cefnwyr yn rhoi'r gôl gyntaf iddynt, ond Wyn, gyda'i gyfrolau o brofiad yn dod a'r sgôr yn gyfartal - y bel yn llithro'n osgeiddig heibio'r golgeidwad, am ei bumed gôl o'r tymor. Yn anffodus, byr-hoedlog fu'r dathlu, a gôl bellach i Bridgend Street rhyw bum munud o ddiwedd y gêm yn sicrhau'r fuddugoliaeth.

Dydd Sadwrn y 14eg o Dachwedd cafwyd ail gem y tymor yn erbyn tîm St. Albans ar faes Tremorfa. Cae tatws o gae a safon y chwarae yn adlewyrchu hynny yn glir. Dim sgôr ar yr hanner, ond gôl fendigedig o ben yr hynafgwr Gareth Huws yn hwyr yn yr ail hanner yn selio'r fuddugoliaeth, y drydedd o'r tymor. Hon oedd gêm gyntaf Gareth ers wythnosau lawer oherwydd anaf (nid henaint) a chredai rhai aelodau'r tîm mai doeth fyddai ei gadw allan am ddwy neu dair gem ymhellach cyn ei weindio i fyny a'i ollwng yn rhydd unwaith yn rhagor cyn y Nadolig. Chafwyd yr un pwynt arall i goffrau'r ail dîm ond mae pethau yn argoeli'n well o Sadwrn i Sadwrn, a hyd yn oed Cen yn awyddus i gofnodi iddo fod bron-a sgorio yn un gêm. Mae 'na bellach ddewis helaeth o chwaraewyr ar gael, ac mae gofyn i bawb frwydro am ei le yn y tîm. Hei lwc y bydd canlyniadau gwell yn dilyn cyn hir ond braf ydi cael cofnodi enwau bechgyn ifanc megis Huw Eurig, Eifion a Melfyn sydd yn brysur ennill eu plwyf wrth ochrau'r cewri megis Der, Gwyn a Rhys Fôn.

Cofiwch am yr ymarfer bob nos Fawrth, Ysgol Uwchradd Radur, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

Rhodri Gwyn Jones.

# TYMOR CYNTAF YSGOL Y WERN

I nifer o blant bach Cymraeg Caerdydd roedd bore Llun, Medi'r 7fed yn garreg filltir go bwysig yn eu bywyd. Dyma fore cynta'r tymor mewn ysgol newydd sbon. Un o'r adeiladau a baratowyd ar eu cyfer oedd Ysgol Babanod Cefn Onn yn Llanishen. Erbyn hyn mae'r Brifathrawes, Mrs. Glesni Whettleton, yr athrawon, a'r prin gant o blant sydd yno wedi ffurfio'n deulu clos a gweithgar. Mae Ysgol y Wern fel y caiff ei hadnabod yn swyddogol bellach, wedi cael ei thraed 'dani ac yn mynd o nerth i nerth. Yn ffodus mae'r cydweithrediad sydd yn bod rhwng Y Wern a'r Ysgol Saesneg drws nesa' yn un arbennig o hapus, ac yn sicr mae hyn wedi gwneud y cyfnod o 'setlo'i mewn' dipyn yn haws i bawb.

Ydy, y mae hi'n ysgol weithgar - ond nid prawf tablau a sillafu yw popeth chwaith. Mae tîm peldroed wedi ei ffurfio ac yn cael llwyddiant mawr o dan hyfforddiant Mr. Cooke. Eisoes, fe ymunwyd â Chynghrair Ysgolion Caerdydd a dim ond un gêm a gollwyd o'r pedair sydd wedi cael eu chwarae yn hanner cyntaf y tymor. Fel bonws arbennig dewiswyd un o'r bechgyn, Alun Jenkins o Lysfaen, i chwarae gyda thim dan unarddeg Ysgolion y Ddinas. Gellwch fentro ei fod yn arwr mawr ymysg ei gyfoedion.

Mae'n amlwg fod plant y Wern yn gallu canu hefyd - cafodd pump ohonynt eu dewis i ganu gyda Côr y Ddinas.

Cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch ym mis Hydref ac wedyn aeth rhai o'r plant hynaf draw i gartref henoed St. Isan i rannu'r ffrwythau a gyflwynwyd gan weddill yr ysgol. Cawsant groeso brwd iawn ac y maent wedi addo mynd yn ôl i ganu carolau cyn y Nadolig. Hyfryd o beth yw gweld yr Ysgol Gymraeg yn cymryd ei lle yn hollol naturiol yn y gymdeithas leol.

Cyn diwedd y tymor fe gynhelir noson Lyfrau Cymraeg yn yr ysgol a bydd y plant yn mynd i weld perfformiad o 'Sipsi Het Ddu' yn y Sherman ac i weld ffilmiau gyda'r plant o Ysgol Cefn Onn. I goroni'r cyfan fe fydd Gwasanaeth Nadolig a a pharti mawr.

Ond nid y plant yn unig sy'n weithgar. Fe ffurfiwyd Cymdeithas Rhieni ar unwaith o dan lywyddiaeth John Albert Evans. Cafwyd noson hwyliog o Gaws a Gwin ar ddechrau'r tymor gyda chefnogaeth bron bob un o'r rhieni. Bydd rhaid gweithio'n ddyfal i godi arian - diwedd y gân yw'r geiniog o hyd fel y gwyddom yn dda - ond gyda'r brwdfrydedd a'r cyfeillgarwch sy'n bod yn awr gobeithir llwyddo i gyrraedd pob nôd o dipyn i beth.

Yn y cyfamser, diolch i'r Brifathrawes, a'r athrawon, am weithio mor galed er mwyn y plant. Pob hwyl iddynt i'r dyfodol ac i'r ysgolion eraill yn ein Dinas.

Buddug Lloyd.



# DATGANIAD GAN YR ARGLWYDD HARLECH

Yr oeddwn wedi disgwyl erbyn hyn y gallwn gyhoeddi fod ein trafodaethau gyda Awdurdod S4C wedi eu cwblhau yn foddhaol. Trafodaethau ynglyn a darparu rhaglenni Cymraeg i S4C am gyfnod o wyth mlynedd. Ond y mae cytundeb sy'n ymwneud a chyfnod mor hir a chytundeb sy'n cyfarfod a holl alwadau a rheini'r alwadau hollol gywir gan y ddwy ochr, yn gytundeb cymhleth iawn.

Y mae gennym dipyn o ffordd i'w thramwyo eto, ond carwn bwysleisio unwaith eto ein penderfyniad i gyfrannu i lwyddiant y Bedwaredd Sianel yng Nghymru.

Yr ydym wedi ymgyrchu am bedwaredd sianel am flynyddoedd lawer, ac er sefydlu'r Awdurdod yn gynharach eleni yr ydym wedi bod yn hael ein cyngor a'n cymorth technegol. Y mae yn gyhoeddus wybyddus y byddai disgwyl i HTV baratoi 9 awr o raglenni Cymraeg a'r BBC 10 awr allan o gyfanswm wythnosol o 22 awr.

Gwelwn ein hunain felly gyda'r BBC, fel y prif bartneriaid yn y fenter i ddod a'r gwasanaeth gorau posibl i Gymru. Yn yr ysbryd yma y bwriadwn ddod i gytundeb ac yna cyflawni ein holl ddyletswyddau i'r safonau uchaf.

I'r perwyl hwn yr ydym wedi trafod yn fanwl rhaglenni unigol, categoriau o raglenni, a pharsel cyfan o raglenni y gallwn eu cynnig i Sianel 4 Cymru.

Yr ydym hefyd wedi prynu'r tir ac wedi gwneud yr holl gynlluniau angenrheidiol i adeiladu cyfleusterau stiwdio ychwanegol - pe byddai angen y rhain fel canlyniad i ni ddod i gytundeb gyda'r Awdurdod, ac ni wn am unrhyw weithred bellach y gall HTV yn gyfrifol ac yn gywir ei gwneud heb wybod yn union beth fydd y gofynion arnom.

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Chwefror erbyn Ionawr 23ain at Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (Tel.753625)

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Gair bach wrth ddechrau i longyfarch ein poetau ni ein hunain a fu'n fuddugol yn Yr Ŵyl Gerdd Dant yng Nghaerdydd. Cafodd y Parch Glyndwr Richards y wobr am gywydd i'r Santes Dwynwen, ac enillodd Marc Edwards o Ysgol Glan Taf y gystadleuaeth i rai dan 15 mlwydd oed. Mi gefais i'r fraint o ddarllen cerdd Marc ar y testun 'Lliwiau' yn y Siambr Len noson yr Ŵyl ac roeddwn yn dotio at ddawn a chrefft Marc. Bydd croeso mawr i'w waith yn y golofn hon.

Yn awr, dyma droi at y gystadleuaeth englyna. Cafwydd chwech englyn i'r Beudy a dau i'r Stabl, a dyma'u hystyried fesul un.

Twm y Teiliwr (1)

Oer y beudy i grewr y bydoedd, - ddoe
 Yn Dduw yn y nefoedd;
Yna un nos, baban oedd,
Heb le ymhlith y bobloedd.

Mae rhyw chwithdod mewn cyferbynnu 'ddoe' ag 'un nos' yn hytrach nag a 'heddiw' neu 'heno'. A fyddai ' -gynt/ A gaed yn Dduw'r nefoedd' yn well? Y diffyg pennaf yw'r llinell olaf lle methodd 'Twm' gyda'r acen. Daw honno ar ol 'b l' yn y rhan gyntaf ond o flaen 'b l' yn yr ail ran. Gellid cywiro'r llinell fel hyn: 'Un abl i achub pobloedd'

Twm y Teiliwr (2)

O'r nef i fyd yr anifail - ganwyd
 Yn gynnar fy mugail
Yn y beudy, heb adael
Y dim o ôl y dom dail.

Mae'r paladr yn dda, a'r ymadrodd 'byd yr anifail' yn awgrymog gyfoethog, ond aethpwyd ar gyfeiliorn yn yr esgyll. Byddai 'Un dim' yn well nag 'Y dim' ac, yn fwy pwysig na hynny, ni chaniateir odli '-ael' ag 'ail'.

Mabsant

Yn y nos mae'r bugail 'nawr yn disgwyl
 Gyda osgordd rwysgfawr
Ar ddeulin ar ei ddulawr
Onid yw yn gweld y wawr.

Dyma gystadleuydd sy'n gwybod sut i lithro i fyny llawes y tipyn beirniad gydag englyn sy'n un frawddeg rwydd o'r nos ar ei ddechrau i'r wawr ar ei ddiwedd. Ysywaeth, rhaid yw parchu rheolau'r iaith yn ogystal a rheolau'r gynghanedd. 'Gyda gosgordd' (o frenhinoedd, 'ddyliwn) sy'n gywir wrth gwrs, a dyna golli'r gynghanedd 'd -sg' ar unwaith. Gresyn.

Glyn dwr (1)

Ganwyd y mab mewn caban, - a daethant
 Hwy'r doethion i'r ydlan
A rhoi'u beichiau i'r bychan
Yn ei grud mor glyd a glân.

Rwy'n digwydd gwybod mai bachgen ysgol 15 mlwydd oed biau hwn, ac mae'n englyn cwbl gywir. Rwy'n hoffi'r drydedd llinell yn arbennig. Dalied ati.

Glyn dwr (2)

Yn llety'r ych, yn wych ei wedd, ganwyd
 E'n gennad tangnefedd
I Mair, mewn gwair lle gorwedd
Asyn a hogyn mewn hedd.

Daeth hwn yn hwyr i'r maes, ond rwy'n ei groesawu'n llawen er hynny. Peth ofnadwy yw'r ysfa englyna. Cefais ffrae gan fam 'Glyn dwr' am roi'r haint iddo. "Mae un yn y teulu'n hen ddigon" meddai hi.

G.R. Y Stabl

Yn y gwair, mab y goron. Mewn cadach
 Mae'n ceidwad a'n gwron.
Caed henwal a gofalon
A lle oer i'n gwneud yn llon.

Ceir yma dipyn o gyferbynnu syniadol crefftus, rhwng y 'gwair' a'r 'goron', rhwng 'cadach' a 'ceidwad'; a rhwng oerni'r hoewal a'r llawenydd a ddaw ohoni. Yr unig beth sy'n amharu ychydig bach ar y cyfanwaith yw'r ddisgyneb yn yr ail linell: 'Ein Ceidwad a'n gwron' yn y drefn honno.

Wil Y Stabl

Adeilad oes dawelach; yr octan
 I dractor rown bellach.
Huno mae'r march a'i linach;
Pa werth sydd i'r preseb bach?.

Mae yma alarnadu ar ol arafwch gwar yr oes a fu, ond o dderbyn awgrym eironig yn y cwestiwn clo, ac o sylwi ar y defnydd o'r gair 'preseb' gyda'i holl gysylltiadau, rwy'n synhwyro gofid dyfnach am golli gwerthoedd yr oes honno hefyd, yn arbennig y lle a roddai hi i'r Crist.

Wedi hir bendroni ni allaf yn well na rhannu'r wobr yn gyfartal rhwng 'G.R.' a 'Wil', eu llongyfarch yn galonnog, a diolch yn fawr i'r beirdd oll am ymddiried eu gwaith imi.

------------

Wedi agor yr amlenni, dyma gael mai 'Wil' yw Dr. Alun Ogwen, (Cyncoed, Rhydfelen a'r Crwys), hen law ar y mesurau caeth, ac mai 'G.R.' yw Gilbert Ruddock, (Penylan, Coleg y Brifysgol ac Ebeneser) sy'n defnyddio'r wers rydd i ganu fel arfer. Pwy wyr na chawn ragor ganddo ar y mesurau caeth yn y dyfodol? Mae dwybunt a chweugain ar y ffordd i'r ddau.

Cofiwch, chwi feirdd, anfon eich cerddi ataf ar gyfer y golofn. Y cyfeiriad yw 'Penmaen, 31 Heol Don, Yr Eglwysnewydd. CF4 2AR. Nadolig Llawen ichwi i gyd.

TEYRNGED I GWYNFOR

Mae'r Gronfa a drefnwyd yn deyrnged i Gwynfor Evans am ei waith mawr 'Er mwyn Cymru', dros gyfnod o 36 mlynedd a mwy, yn para'n agored i bwy bynnag a hoffai gyfrannu iddi. Cedwir y Gronfa'n agored tan fis Rhagfyr ar gais nifer mawr o gyfeillion ac edmygwyr Gwynfor o bob rhan o Gymru. Dylid anfon cyfraniadau i Mr. Dafydd Wigley, A.S. mewn amlen (dim stamp) wedi ei chyfeirio'n union fel hyn: Mr. Dafydd Wigley, A.S., Post Rhad/Freepost, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7BR. Nid yw'r Gronfa'n gyfyngedig i aelodau Plaid Cymru'n unig. Mae cylch cyfeillion ac edmygwyr Gwynfor yn rhy eang i hynny. Anfoner yn ddiymdroi.

EGLWYS DEWI SANT CAERDYDD

NOS SUL, RHAGFYR 20, 1981 am 8 o'r gloch

CAN NADOLIG

gyda Emyr Jenkins yn cyflwyno

IONA JONES (Soprano)
LOWRI FFRANCON (Telyn)
GARETH RHYS-DAVIES (Cwmni Opera Cymru)
Y DILIAU

Coffi : Mince Pies
Ysgol Feithrin Llysfaen £1.50

# YR WYL GERDD DANT

# YN Y DDINAS

Nes iddo fynd i lawr i Neuadd y Ddinas ar y nos Sadwrn, wyddai'r Dinesydd ddim mai gair arall am steddfod oedd y cyfan.

Aeth yno'n gynnar erbyn cyfarfod yr hwyr a chael dwsinau lawer yn siarad ar uchaf eu lleisiau y tu allan i'r neuadd. Popeth yn iawn, wrth gwrs, os dyma'u dymuniad. Yn anffodus, deuai'r twrw'n donnau i mewn i'r neuadd bob tro y cai un o'r drysau eu hagor.

Rydych yn iawn: Un o frawddegau mawr yr arweinyddion oedd, 'Ydy'r drysau yng nghau?'.

Gwnaeth y dryswyr eu gwaith yn dda ond mae'n anodd gwybod faint o'r bobl oedd yn gwrando ar y gweithgareddau. Roedd Y Dinesydd yn eistedd y tu ôl i ddwy wraig a oedd newydd gael gafael ar gatalog Timothy Whites a rhaid oedd mynd trwy hwnnw fesul tudalen a sylwi ar bob peth. Roedd nifer o rai eraill, hefyd, yn gweld ei gilydd am y tro cyntaf ers blynyddoedd, yn ôl y sgwrsio dyfal a ddigwyddai rhwng cystadleuthau.

Gyda gŵyl gerdd dant, roedd yn anorfod cael telynau. Ymron yn union wedi i'r Dinesydd eistedd i lawr, daeth criw o ddynion a llu o delynau i mewn i'w rhoi ar y llwyfan. Yna, ymhen ychydig funudau (fwy neu lai) allan a nhw drachefn. Yna, ymhen ychydig funudau, fwy neu lai, i mewn a nhw drachefn. Yna, ymhen ychydig funudau, allan a nhw drachefn.

Maen nhw'n dweud i mi mai offeryn delicet yw telyn. All e ddim dioddef gwres. Gall dorri'r tannau. Dyna paham mai telynau a geir yn y nefoedd, y mae'n debyg. Fe fyddai pob tant yn torri yn y lle arall yna.

Fel y gellid disgwyl mewn gŵyl genedlaethol, roedd llu mawr o'r cystadleuwyr yn cyrraedd safon uchel a fu dim rhaid i ni aros yn hir i glywed beirniad yn dweud, "Dyma'r gystadleuaeth orau a glywais i erioed".

Pryd fyddan nhw'n dewis beirniaid ar gyfer yr ŵyl nesaf tybed?

Digwyddai'r Dinesydd fod yn eistedd yn ymyl beirniad o fri yn ystod y gystadleuaeth olaf oll. Creme de la creme yr ŵyl. Dyma ni'n dau'n mynd ati i feirniadu'i chalon hi, a chytuno hed. Yna, daeth y barnwr swyddogol i gyhoeddi, cyntaf, ail, trydydd...a doedd dim sôn am ein dewis (cyntaf) ni. Gallwn esgus y byddai'n bedwerydd beth bynnag ac mae pawb yn gwybod nad yw beirniad steddfod yn deall dim, pan fo'n dyn ni'n colli.

Gofynnwyd i ni sawl gwaith i roi clap i hwn a chlap i'r llall a rhoi clap i ni'n hunain am roi clap i hwn a'r llall. Cafwyd diolchiadau a chyhoeddiadau a rhai'n dod miwn a rhai'n mynd mas a rhai'n dod miwn a rhai'n mynd mas a rhai... Ond na fe, steddfod oedd hi.

Bydd yn hen beth erbyn i'r rhifyn hwn o'r Dinesydd weld golau dydd. Am ryw reswm neu'i gilydd, chaem ni ddim gwybod bob tro o ble'r oedd y buddugwyr yn dod. Go brin eich bod chi am wybod hynny, beth bynnag. Doedd bobol y llwyfan ddim yn siwr eu hunain bob tro, cofiwch.

"Y cwpan yn mynd i blodau'r grug...na, blodau'r eithin..." hen fater bach pigog, ynte fe?

Cawsom wybod fod yr Ŵyl wedi'i threfnu gyda graen o dan gadeiryddiaeth Robin Jones. Mae'n dda gan Y Dinesydd ddeall hynny achos nid pawb sha'r North sy'n credu bod ni'n gallu trefnu dim lawr sha Cardydd ma. Roedd popeth yr oedd galw am ei drefnu yn symud yn llyfn a diffwdan ac er na fu'n profi'r ymborth, clywodd Y Dinesydd fod gwragedd y gegin wedi gweithio'n ddyfal. Mae'n rhaid eu bod nhw wedi gwerthu llawer o de, neu fydde cymaint o bobol ddim eisie mynd allan o hyd.

Gyda llaw, oni fyddai'n syniad mabwysiadu offeryn heblaw'r delyn yn offeryn cenedlaethol, rhywbeth a whils tano fe, neu'n well fyth, rhywbeth y gellwch chi i roi yn ych poced?

ON: Rhag ofn eich bod ar goll, son y mae'r llith uchod am Ŵyl Cerdd Dant Cymru a gynhaliwyd yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, ar y seithfed o Dachwedd, ychydig bach ar ôl i rywun arall fod yno'n siarad tipyn bach o Gymraeg.

<u>CYRSIAU YM MHLAS TAN Y BWLCH</u>

<u>AR GYFER Y FLWYDDYN NEWYDD</u>

Ionawr 22-24ain: <u>GWNEUD DILLAD 1</u>
2 ddiwrnod £23.80
Ionawr 29-31ain: <u>ADAR Y GLANNAU</u>
2 ddiwrnod £23.80
Chwefror 19-21ain: <u>GWNEUD DILLAD 2</u>; 2 ddiwrnod £23.80
Mawrth 12-14eg: <u>LLEN GWERIN</u>
2 ddiwrnod £23.80
Ebrill 30ain-Mai 3ydd, <u>ADAR ERYRI</u>, 3 ddiwrnod £39.30
Mai 29ain - Mehefin 5ed, <u>Y CELTIAID YN EWROP</u>. Yn dilyn y daith lwyddiannus i'r Arddangosfa Geltaidd yn Hallein flwyddyn yn ol, dyma daith i olrhain y Celtiaid yn Tsiecoslofacia. Pris tua £200

Ceir mwy o fanylion am y cyrsiau oddi wrth Y Pennaeth, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd. Tel. Maentwrog 324.

Holwch hefyd am y ddarpariaeth ar gyfer grwpiau i ddod i ymweld a'r Plas (Darlithiau, Y Gerddi, Bwffe etc.).




<u>CABARET NADOLIG</u>

NOS SADWRN, 2 IONAWR, 8 p.m.
gyda
HYWEL GWYNFRYN, SUE RODERICK a RED BOYCE, a ROVI - y consuriwr.
Tocynnau: £5 (gan gynnwys pryd o fwyd)
Archebwch eich tocynnau ar unwaith gan fod cryn alw amdanyn nhw eisoes.
Beth gwell ar ol syrffedu ar derci oer a Bambi ar y teledu am yr ugeinfed tro?

Tocynnau ar gael o'r Sherman, rhif ffon Caerdydd 30451
Trefnir y noson hon gan Gyfeillion y Theatr Gymraeg mewn cydweithrediad a'r Academi Gymreig.
Mae'r Academi Gymreig yn derbyn nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru.

# O'R GANOLFAN -


CÔR ADRAN

UWCH ADRAN

AELWYD

TAFLEN





Bu Canolfan yr Urdd yn brysur iawn yn y misoedd diwethaf gyda niferoedd o bobl yn mynychu'r adeilad bob wythnos.

Ar nos Fawrth mae Adran Llandaf yn cyfarfod o dan reolaeth Martin Cook. Plant rhwng saith a deg mlwydd oed sy'n mynd i'r adran tra bod y rhai rhwng unarddeg a thairarddeg yn mynychu'r uwchadran ar nos Lun. Cliff Jones sy a gofal yr uwch-adran ac mae ei ddwylo'n llawn yn edrych ar ôl hyd at saith deg o bobl ifanc bob wythnos. Uchafbwynt y tymor i'r bechgyn oedd y trip ar Hydref 14 i weld Cymru yn chwarae Gwlad yr Iâ ar gae'r Vetch Abertawe.

Mae'r Aelwyd sy'n cyfarfod ar nos Wener yn eithaf prysur ac yn cynnal gweithgareddau amrywiol o wythnos i wythnos. Hyd yn hyn uchafbwynt y tymor oedd y trip sglefrio i Fryste yng nghanol Tachwedd, ond gyda'r parti Nadolig ar y gorwel - pwy a wyr?

Mae'r Aelwyd yn bwriadu teithio o amgylch y tai i ganu carolau cyn bo hir, ac os byddech yn hoffi iddynt alw yn eich cymdogaeth rhowch wybod i'r Warden (36201).

Bu Côr y Ganolfan yn brysur iawn yn ddiweddar. Buont yn cystadlu yn yr Ŵyl Gerdd Dant ac yn cynnal cyngherddau yn Hendygwyn ar Daf, Penybont a Minnie St. Mae cyfnod canu carolau yn agoshau gyda'r gwasanaeth carolau ym Methlehem, Gwaelod y Garth ar nos Sul, Rhagfyr 20fed. Yn ystod prysurdeb paratoi at y gweith-gareddau yma mae'r merched wedi bod yn brysur yn gwnïo eu gwisgoedd newydd (rhai yn fwy llwyddiannus na'u gilydd!!). Mae'r côr wrthi hefyd yn ymarfer ar gyfer eu prif gyngerdd ym mis Mawrth. Y gwaith a ddewiswyd eleni yw 'Y Cread' gan Haydn, ac mae croeso i aelodau newydd ddod i ddysgu'r darn gyda nhw.

Heb os y newyddion mwyaf cynhyrfus o'r Ganolfan yw i siop TAFLEN gael ei sefydlu yno yn ddiweddar (gweler Dinesydd Tachwedd). Mae'r ymateb i'r fenter newydd yma ar ran y Ganolfan wedi bod yn galonogol.

Mae'r siop ar agor o 9.30 hyd 7 bob dydd (hyd 5 ar nos Sadwrn), ac mae'n amlwg bod yr oriau hwyr yma a'r parcio cyfleus wrth fodd y cwsmeriaid. Mae nifer o nosweithiau llyfrau wedi eu cynnal gan TAFLEN er lles amrywiol gymdeithasau ac mae rhagor wedi eu trefnu yn ystod y misoedd nesaf.

Mae llyfr newydd lliwgar o Hwiangerddi Cymraeg wedi ei gyhoeddi'n ddiweddar gan Wasg y Dref Wen. I nodi'r achlysur bu Caryl Ifans (Bando) ac Emyr Wyn (Yr Awr Fawr) yn y siop ar fore Sadwrn Tachwedd 28ain yn canu hwiangerddi ac yn difyrru'r plant (hen ac ieuanc) a gasglodd i'w clywed).

Mae holl elw TAFLEN yn mynd i Ganolfan yr Urdd ac wrth siopa yno gellwch gefnogi gweith-gareddau'r Ganolfan. Os na fuoch yn ymweld a'r siop eto gwnewch y siwrne cyn bo hir i weld y dewis o lyfrau, recordiau a chardiau sy yno.

BYSCIO

Waeth i mi gyfaddef, er i mi wylio a gwrando ar fyscwyr o bob math yn perfformio mewn amryw o drefi a dinasoedd, nad oeddwn erioed wedi dychmygu fy hun yn yr un sefyllfa. Fodd bynnag, fore Sadwrn olaf mis Hydref dyna lle'r oeddwn i a phymtheg o gyd-ddisgyblion Ysgol Gyfun Llanhari yng Nghanolfan Dewi Sant yn canu cerdd-dant i gyfeiliant telyn Miss Gillian Green.

Er y gwelwyd pobl yn canu a chwarae offerynnau ar y stryd yng Nghaerdydd o'r blaen, gwyddwn wrth astudio wynebau ein cynulleidfa, mai profiad newydd i'r mwyafrif o siopwyr blinedig y Sadwrn oedd clywed cerdd dant. Rhyfeddach fyth i rai, oedd gweld y delyn yn cael ei chanu, ac mae'n siwr fod aml un wedi teimlo fod triniaeth y pedalau yr un fath a newid ger car, a sylwais fod ambell hen ŵr a'i feddwl yn fwy ar draed y delynores yn gwibio o bedal i bedal nag ar ein canu ni.

Bwriad y fenter oedd casglu arian a rhoi cyhoeddusrwydd i'r Ŵyl Gerdd Dant a gai ei chynnal y Sadwrn canlynol. Cynlluniwyd posteri lliwgar, a'u gosod o'n cwmpas ar fyrddau o bren ac er mawr ddychryn i rai yn ein mysg, fe ymddangosodd un o gamerau 'Heddiw' i ffilmio. Mae'n siwr mai'r posibilrwydd o'u gweld eu hunain ar y teledu a ddenodd ambell un o'r gynulleidfa i ddynesu atom ond chwarae teg roedd yno griw helaeth yn gwrando a chlywn yr arian yn tincial wrth ddisgyn i'r het o'n blaenau aml dro yn ystod y bore.

Ar ôl awr a hanner o ganu a chystadlu a sŵn y siopwyr o'n cwmpas, roedd lleisiau'r rhan fwyaf ohonom wedi crygu. Er hynny bu'n fore llwyddiannus a chawsom lawer o sbri, tynnu sylw at yr Ŵyl a chasglu swm go dda o arian.

Sioned Geraint.

MERCHED Y WAWR

Cawsom groesawu Merched y Wawr y Garth i'n cyfarfod diwethaf i ymryson gwis. Mair Piette oedd yr holwr a chwarae teg iddi anwybyddod y cwestiynau cyfreithiol cymhleth - a da hynny! Gwybodusion y Garth gariodd y dydd y tro yma! Diolch iddynt am roi noson hwyliog inni.

Cofiwch am ein stondin amrywiol a'r stondin lyfrau yn y cyfarfod nesaf ar y 7fed o Ragfyr. Croeso cynnes i bawb.

# COLOFN
## Shân Emlyn

Rwy'n tybio bod y rhan fwya' o bobol sy'n darllen y golofn hon yn meddwl amdanai fel creadures gor ramantus, afreal, a hyd yn oed yn un reit od! Haerllugrwydd ar fy rhan mae'n debyg yw tybio bod y darllenydd yn rhoi amser o gwbwl i feddwl am gynnwys y golofn - ar wahan mae'n siwr gen i, i roi ochenaid o ddiflastod pan fyddai'n sôn gormod am y lle 'na ym mhen draw'r byd. Wir yr, rydwi yn ymdrechu i ddisgyblu fy hun, ac i ymatal rhag rhoi gormod o bwdin ichi.

Y mis yma, mae hi'n anoddach nag arfer arnai gan fy mod newydd ddod yn ôl ar ôl treulio mis bythgofiadwy o amrywiol brofiadau (jest a marw isio manylu!) yn Y Wladfa. Pe caniateid imi ddweud fy hanes yn fanwl byddai gennyf ddigon o stwff i lenwi rhifyn cyfan o'r Dinesydd! I mi mae'r hanes yn rhamantus, yn gyffrous, yn ddiddorol, yn berthnasol i ni yma ac yn llawn cyfoeth. Ond, rwy'n ymwybodol o'r golau coch - bob tro yr anelaf am un o'r casetiau a recordiais "draw" neu agor fy ngheg i sôn am fy mhrofiadau, mae Owen a'r plant yn sgrealu i ben arall y tŷ i osgoi gwrando!

Felly dyma ymwrthod a'r demtasiwn i roi fy hanes i chi - biti cofiwch - mi ryda chi'n cael colled fawr! Y cyfan a nodaf yw sut y credaf bod y profiad wedi dysgu llawer i mi, ac wedi bod yn agoriad llygad o sawl safbwynt. Mi fodlonai ar adrodd stori fach ichi ddwedodd May Ceiriog Hughes wrthai. May yw colofn Capel Tabernacl Trelew, ganddi hi y mae agoriad y capel, hi sy'n chwarae'r organ, yn cymryd y rhannau rhagarweiniol, a'r cyhoeddiadau, a dim ond llond dwrn canol oed a hyn sydd yno o Sul i Sul. Gofynais iddi sut na fuasai'n digalonni a beth a'i gwna i ddyfalbarhau?

Wrth ateb dwedodd ei bod yn credu mai'r gofgolofn orau i'r hen Wladfawyr yw cadw drws y Capel Cymraeg ar agor - capel sydd wedi agor ei ddrws yn ddifwlch am dros ganrif. Cyfaddefodd ei bod yn cael pytiau o ddigalondid yn amal - ond ar adegau felly cofiai stori adroddai ei mam wrthi i ddarlunio nad oes wiw anobeithio na rhoi'r gorau iddi. Dyma'r stori:

Syrthiodd dau lyffant bach i fwcedaid o lefrith, ac meddai un wrtho'i hun "Wel dwi am foddi" ac fe suddodd i waelod y fwced, ac fe foddodd. Ond, meddai'r llyffant bach arall "Na, dwi ddim am foddi" a dyma fo'n padlo, padlo, padlo nes i'r llefrith droi yn gaws ac fe eisteddodd yn fuddugoliaethus ar ben y cosyn"!

Profiad tebyg yw ymweld â'r Wladfa y dyddiau yma. Mae'r iaith yn dihoeni'n gyflym, ond cymdeithas y gweddill ffyddlon yn ddwys a thrist, ac ar yr un pryd yn orfoleddus o hapus. Teimlaf bod gennyf lu o eneidiau hoff cytun yno, sy'n brwydro yn erbyn y lli Sbaeneg, er yn ymwybodol bod y frwydyr bron ar ben. Effaith hyn arna i yw, nid fy nigalonni ond defnyddio'r profiad fel ysbrydiaeth i roi hwb enfawr i'm hymlyniad at yr iaith, yn ei gwlad ei hun, ac at y pethau sy'n agos iawn at fy nghalon. Pan ddaw pwl o ddigalondid, bydd raid i minnau, bryd hynny, fel May, feddwl am y ddau lyffant bach.

---

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau Deddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

---

YSGOL GYNRADD BRYNTAF

CROESO I BAWB I :

F F A I R   N A D O L I G

Bore dydd Sadwrn, 19 Rhagfyr

am 10.30 a.m.


Sain (Recordiau) Cyf., Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd
Tel.: Penygroes 732



RECORDIAU NADOLIG SAIN

COR MEIBION DYFNANT
PLETHYN
GERAINT JARMAN
TECWYN IFAN
RHIANNON THOMAS
TOM DAVIES
"NOS NADOLIG YW"
"COED Y MAES"
"Y MAB AFRADLON"
COR MEIBION DOWLAIS
ROSALIND A MYRDDIN
"CANEUON GRACE A SIAN"
CYMANFA YSGOLION MORGANNWG GANOL

Cewch gatalog llawn o'r cyfeiriad uchod.

Ar werth yn awr!

sain


IS-ETHOLIAD YNG NGORLLEWIN CAERDYDD ? ?

Mae sôn yn y papurau y bydd (St) George Thomas, Llefarydd presennol Tŷ'r Cyffredin yn ymddiswyddo. Byddai ei olynydd yn swydd y Llefarydd yn cael cyfle i ymgynefino cyn, efallai, orfod ymdopi â sefyllfa anodd yn y Senedd a godai pe bai un blaid yn methu ffurfio llywodraeth ar ôl yr etholiad nesaf. Felly mae'n bosibl y cynhelir is-etholiad cyn bo hir.

Yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar, yng Nghynhadledd y Blaid, honnai Dafydd Wigley fod gan Blaid Cymru ddigon o aelodau, a digon o ymgeiswyr posibl, yng Nghaerdydd i fedru ymladd is-etholiad yn effeithiol. Ac eto, nid oedd unrhyw gynrychiolaeth o Orllewin Caerdydd yn y Gynhadledd ac ni chredir bod mwy na chant o aelodau yn yr etholaeth. Nid oes un gangen weithgar o fewn yr etholaeth er bod cannoedd o bobl ddod, 'Cymry da' yn byw yn yr ardal (ac, yn achos llawer, yn ennill bywoliaeth gyda'r BBC ac HTV oherwydd eu cenedligrwydd). Ydy'n ormod disgwyl iddynt alw yn Swyddfa'r Blaid yng Ngorllewin Caerdydd i ymaelodi?

LLAIS AR C.D.C.

Mae Alan Jobbins, dosbarthwr y Dinesydd wedi ei ethol ar fwrdd rheoli Ymddiriedolaeth Darlledu Caerdydd.

Roedd yr etholiad yn un unigryw yn hanes gorsafoedd radio annibynol oherwydd ceisia roi i'r cyhoedd drwy gynrychiolwyr sydd wedi eu hethol lais mewn rhedeg Cwmni Darlledu Caerdydd.


Os oes gennych unrhyw sylw, barn, neu awgrym i'w wneud ynglyn a rhaglenni Cymraeg Cwmni Darlledu Caerdydd, ysgrifennwch i 47 Heol Wingfield, Yr Eglwysnewydd, Caerdydd.

FFAIR NADOLIG PLAID CYMRU

Roedd yna lond lle o bobl a llond gwlad o hwyl yn y Ffair flynyddol yn Neuadd y Ddinas. Gyda Mrs. Beryl Hall yn agor fe gafwyd prynu da ar y nwyddau ac fe godwyd dros fil o bunnoedd yn ystod y prynhawn. Mae yna wobr raffl yn aros Siân Helen, Cae'r Wenallt, Rhiwbeina. Fe anghofiodd Sian roi rhif ei thŷ. Ffoniwch Caerdydd 753695 Siân ac fe gewch eich gwobr.

Cofiwch am Ffair Sborion y Blaid ar Ionawr 23 a'r Ffair Nadolig nesaf ar Dachwedd 13, 1982.

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn Rhif 19



**Ar Draws:**

1. Maent yn eistedd (ac weithiau yn cysgu ar feinciau (7,7)
8. Dedwydd (5)
9. Haeriad sydd yn drefniant cerdd dant (8)
11. Rhan o naid a ras gymysg(7)
12. Darparwr y wledd (7)
13. Byddaf yn rhoi tro (5)
15. Llu yn dilyn a chist rew wedi dymchwel gan bistyllu hylif oddiamgylch (9)
17. Hen (9)
20. Blaguro (5)
21. O'r uchder (3-4)
23. Hances boced yr Hwntw (7)
25. Diblant (8)
26. Cynnes (5)
27. Pechod parod yr Hen Genedl (5,3,6)

**I Lawr:**

1. Anhebyg i agwedd credadun (12)
2. Rho bapur am y parsel.....(5)
3. .....a dwed am y cynnwys mewn gair neu ysgrifen (9)
4. Cenwch y corn! (7)
5. Gorawen llesmeiriol (7)
6. Oni ddylai spaghetti junction fod yn y wlad hon? (5)
7. Wrth fynd "Tros y Dwr i Draeth Llansteffan" yr ydych yn cychwyn .....(1,8)
10. Erchyllterau (12)
14. Gorchmynodd gydag awdurdod digwestiwn (9)
16. Gogwyddiadau (9)
18. Gwyl yr Adfent (7)
19. Cynulliadau o wŷr doeth?(7)
22. Addoldy treigledig sy'n edrych yn iawn yn Saesneg (5)
24. Deunydd ysgithr anifail (5)

**DATRYSIAD CROESAIR RHIF 18**

Ar Draws: 8. Deheulaw; 9. Rwsieg; 10. Anystwythder; 11. Lleng; 13. Egwan; 15. Cymhorthaf; 17. Ofer Esgeulustod; 19. Pot Siambr; 21. Achosi; 23. Llid; 24. Lledneisrwydd; 27. Tramwy; 28. Aberafan

I Lawr: 1. Cefnogaf; 2. Reis; 3. Blawd; 4. Gwrthgyferbyniad; 5. Croesholi; 6. Ust; 7. Begèra; 12. Bresych; 14. Athrist; 16. Ysgadenyn; 18. Ocsiynau; 20. Oddiwrth; 22. Difeth; 25. Rwan; 26. Yma.

**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST**
**BWYD A GWIN DA**
TRWYDDED PRESWYL

# YR WYL - ETO

Fe ddechreuodd diwrnod gofalwyr Neuadd y Ddinas yn gynnar iawn dydd Sadwrn y 7fed o Dachwedd. Ymhell cyn 8.30 y bore roedd rhaid agor y drysau i ugeiniau o blant ac oedolion oedd yn cyrraedd y rhagbrofion. Roedd rhywbeth yno at flas bawb.

Roedd hwn yn ddiwrnod pwysig iawn i Gaerdydd oherwydd dyma'r tro cyntaf erioed i'r Ŵyl ddod i'r brifddinas. Teimlai pawb y cyffro yn Neuadd y Ddinas;roedd yr awyrgylch yn gwbl wahanol i'r hyn ydyw ar unrhyw ddiwrnod arall. Fel arfer Saesneg yw'r iaith ond ar y dydd Sadwrn hwn y Gymraeg oedd ar wefusau pawb. Teimlwn yn hollol gartrefol yno. Yr oeddwn i yn cystadlu ar yr unawd telyn dan 13. Tra'n aros yn y coridor am fy rhagbrawf, rhyfeddwn ar yr holl delynnau gwerthfawr oedd yno. Yn y rhagbrawf pan roeddwn yn chwarae, deuai atgofion am y flwyddyn diwethaf yn 81 imi pan yr oeddwn yn yr un sefyllfa. Ar y llwyfan yn y prynhawn pan oeddwn yn chwarae meddyliwn am y cynghorion yr oedd fy athrawes wedi eu rhoi imi.

Ar y cyfan fe wnaeth Ysgol Llanhari yn hynod o dda a theimlwn yn falch iawn o fod yn perthyn i'r ysgol. Ond i mi roedd gwerth arall i'r diwrnod hefyd. Hyn oedd yn fy nharo; i feddwl fod cystadlu yn mynd ymlaen trwy'r dydd rhwng yr holl ysgolion, roedd yr awyrgylch yn hynod o gyfeillgar a rwyn siwr bod y fath gyfarfod wedi helpu holl delynorion a chantorion Cymru i adnabod ei gilydd.

Ann Price, Dosbarth 1
Ysgol Gyfun Llanhari.

